



Trwsio Tai Taflenni Ffeithiau

Cyflwyniad

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch Trwsio Tai. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n tudalen we '[Sut i Gwyno](#)', sydd ar gael o dan y tab 'Gwneud Cwyn'.

Gall yr Ombwdsmon ond ystyried cwynion am gynghorau a chymdeithasau tai; ni all ddelio â chwynion ynghylch landlordiaid preifat.

Fel landlord, mae gan y cyngor neu'r gymdeithas dai gyfrifoldeb cyfreithiol dros wneud gwaith trwsio arbennig. Yn ôl y gyfraith, rhaid yn gyntaf dod â'r broblem at sylw'r landlord a rhaid i'r landlord hefyd fod wedi cael cyfle rhesymol i wneud y gwaith trwsio cyn ichi gwyno i'r Ombwdsmon.

Mae gan denant rai cyfrifoldebau i gynnal a chadw'r eiddo, a bydd manylion y rhain yn eich cytundeb tenantiaeth.

Mae'r gwaith trwsio y mae'r landlord yn gyfrifol amdano yn cynnwys y canlynol:

- strwythur a thu allan eich cartref (gan gynnwys y to a'r peipiau);
- y system wresogi (gan gynnwys y bwyler a'r cyflenwad dŵr poeth);
- y bath, y gawod, sinc a'r toiled (gan gynnwys unrhyw waith peipiau cysylltiedig);
- grisiau neu lifft yr ydych efallai yn eu rhannu â phobl eraill (e.e. mewn bloc o fflatiau)

Rhaid i'r landlord hefyd archwilio unrhyw fwyler neu gyfarpar nwy sydd wedi'i ddarparu ganddo, bob blwyddyn, a rhoi tystysgrif diogelwch ichi i ddangos bod hyn wedi'i wneud.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu edrych ar gwynion bod y landlord wedi:

- methu cyflawni gwaith trwsio i'r cartref yr ydych yn ei rentu ganddo;

- oedi yn delio gyda'ch cais i wneud gwaith trwsio;
- colli apwyntiadau;
- methu datrys problem drwsio y gwnaethoch roi gwybod amdani, mewn amser rhesymol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdmson yn gallu ei wneud

Ni fyd yn gallu:

- delio â chwynion am landlordiaid preifat;
- gorfodi eich landlord i wneud unrhyw welliannau (e.e. gosodion ystafell ymolchi newydd);
- gorfodi eich landlord i wneud gwaith trwsio mwy sylweddol na'r hyn sydd ei angen i ddelio â'r broblem.

Materion i gadw mewn cof

- Bydd eich cytundeb tenantiaeth efallai'n nodi pethau penodol eraill y mae eich landlord wedi cytuno i fod yn gyfrifol amdanynt.
- Bydd llawer o landlordiaid yn rhoi 'Llawlyfr Tenant' ichi, sy'n cynnwys gwybodaeth fel yr amserlen ar gyfer gwneud gwaith trwsio.

Gwybodaeth bellach

Efallai y byddwch am ystyried cysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:

Shelter Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar dai. Gallwch eu ffonio ar **0845 075 5005** neu fynd i'w gwefan yn <http://www.sheltercymru.org.uk>.

Cyngor ar Bopeth Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys tai). Gallwch gysylltu â nhw drwy fynd ar y we yn <http://www.citizensadvice.org.uk> (a dewis opsiwn tudalen 'Cymru') a chofnodi eich cod post i gael manylion ar sut i gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol agosaf.

Efallai y bydd eich **Aelod Cynulliad** lleol yn gallu cynnig cyngor a chymorth hefyd.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymhell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi edrych arnynt ar gael ar ein gwefan, o dan y tab 'Cyhoeddiadau' ar y dudalennau '[Ein Canfyddiadau](#)' a '[Coflyfr yr Ombwdsmon](#)'.

Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, [cysylltwch â ni](#), drwy ffonio 0300 790 0203 neu ebostio holwch@ombwdsmon.cymru

Hawdd ei Ddarllen

Trwsio Tai

 [Lawrlwytho](#)

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203 Mae ein llinell ffôn ar agor rhwng 10yb-4yp Dydd Llun
- Dydd Gwener